# *Polisi Datgelu Gwarchodedig (Chwythu'r Chwiban)*

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r polisi:** | ***Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o ddidwylledd ac atebolrwydd ac yn cymryd camymarfer o ddifrif. Mae gan BAWB hawl a dyletswydd i roi gwybod am bryderon ynghylch camymarfer sydd er budd y cyhoedd.*** |
| **Rhif polisi:** | **004/2022** |
| **Rheoli fersiynau:** | ***Fersiwn: 3.0***<br>***Dyddiad: Medi 2024***<br>***Rhesymeg: Adolygu a throsglwyddo i dempledi newydd yr heddlu***<br>***Mae manylion rheoli fersiynau llawn ar gael yma.*** |
| **Dyddiad gweithredu:** | ***Ionawr 2023*** |
| **Dyddiad adolygu:** | ***Medi 2026***<br>***(fodd bynnag, gall perchennog y polisi gynnal adolygiad yn gynt os bydd newidiadau mawr i ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r polisi, neu newidiadau mawr i'r broses ac ati).*** |
| **Perchennog / cyswllt:** | ***Uwch Reolwr, Adran Safonau Proffesiynol*** |
| **Cymeradwyaeth** | ***Ditectif Uwcharolygydd, Safonau Proffesiynol***<br>***Dyddiad cymeradwyo: 8 Tachwedd 2024*** |
| **Ymgynghoriad a chymeradwyaeth** | ***Iechyd a Diogelwch, Gwasanaethau Pobl, Tîm Cyllid, Rheoli Gwybodaeth a Chydymffurfedd, Undebau Llafur, Ffederasiwn yr Heddlu, Cymdeithas yr Uwcharolygwyr, rhwydweithiau cefnogi.*** |
| **Cyfieithiad Cymraeg** | ***Oes*** |

# 1. Datganiad Polisi

Chwythu'r chwiban yw'r term a ddefnyddir pan fydd unigolyn yn trosglwyddo gwybodaeth am gamwedd. Yn y polisi hwn, cyfeirir at hyn fel “datgeliad” neu “chwythu’r chwiban”. Ni fydd y camwedd bob amser yn rhywbeth y mae swyddog, aelod o staff neu wirfoddolwr wedi'i weld yn y gwaith neu yn ystod ei ddyletswyddau.

Mae gan chwythwr chwiban sy’n gwneud datgeliad gwarchodedig ar lafar, drwy e-bost neu’n ysgrifenedig yn unol â’r ddeddfwriaeth, amddiffyniad cyfreithiol rhag niwed, diswyddo neu ddileu swydd.

Mae cyfraith chwythu'r chwiban i'w chael yn Neddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998). Er mwyn cael ei amddiffyn gan gyfraith chwythu’r chwiban, rhaid i unigolyn sy’n gwneud datgeliad gredu’n rhesymol mewn dau beth -

1. Ei fod yn gweithredu er budd y cyhoedd,

2. Bod y datgeliad yn dueddol o ddangos camwedd yn y gorffennol, y presennol neu un sy’n debygol yn y dyfodol sy’n perthyn i un neu fwy o’r categorïau canlynol –

- troseddau (gall hyn gynnwys, er enghraifft, mathau o amhriodoldeb ariannol megis twyll)
- methiant i gydymffurfio â rhwymedigaeth a nodir yn y gyfraith
- camweinyddiadau cyfiawnder
- peryglu iechyd a diogelwch rhywun
- niwed i'r amgylchedd
- cuddio camwedd yn y categorïau uchod.

***Yn berthnasol (ond heb fod yn gyfyngedig) i’r canlynol**: Pob categori o swyddogion a staff Heddlu Dyfed-Powys, boed yn weithwyr llawn amser, rhan amser, parhaol, gweithwyr am gyfnod penodol, gweithwyr dros dro (gan gynnwys staff asiantaeth, partneriaid a chontractwyr) neu staff ar secondiad a gwirfoddolwyr. Rhaid i swyddogion heddlu, staff a gwirfoddolwyr sy’n cyrchu a defnyddio asedau ac eiddo’r heddlu roi sylw dyledus i gynnwys y polisi hwn.*

# 2. Cwmpas y Polisi

Mae’r polisi hwn yn berthnasol i, ac yn amddiffyn y canlynol –

- Staff yr heddlu
- Swyddogion yr heddlu
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh)
- Cwnstabliaid gwirfoddol
- Gwirfoddolwyr cefnogi'r heddlu a chadetiaid
- Contractwyr sy'n darparu gwasanaeth i'r heddlu
- Staff asiantaeth dros dro
- Prentisiaid modern
- Y rhai sydd ar leoliad gwaith
- Cyn swyddogion, staff a gwirfoddolwyr

# 3. Pwerau a Pholisi / Gofynion Cyfreithiol

Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998)

Deddf Cydraddoldeb 2010

Rheoliadau'r Heddlu

Rheoliadau Cwnstabliaid Gwirfoddol 1965

Rheoliadau Cwnstabliaid Gwirfoddol (Diwygio) 2012

Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban Heddlu Dyfed-Powys

# 4. Opsiynau a Chynlluniau Wrth Gefn

Cyfrifoldeb allweddol i swyddogion a staff yw herio neu adrodd am ymddygiad amhriodol ac mae'r heddlu wedi ymrwymo i gefnogi unigolion sy'n adrodd am bryderon o'r fath.

Gellir gwneud datgeliadau mewn nifer o ffyrdd –

- Datgeliad i oruchwyliwr/rheolwr/uwch-swyddog
- Datgeliad i gymdeithasau staff
- Datgeliad i'r Adran Safonau Proffesiynol/Uned Gwrth-lygredigaeth yr Adran Safonau Proffesiynol
- Datgeliad i brif swyddog
- Datgeliad trwy linell adrodd cyfrinachol/dienw yr heddlu

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymrwymo i hyrwyddo'r deg safon ymddygiad proffesiynol, ynghyd â'r Cod Moeseg a'r egwyddorion plismona sydd ynddo.

Mae'r rhain yn berthnasol i'r holl swyddogion, staff a gwirfoddolwyr.

**<u>Cyfrifoldeb Heddlu Dyfed-Powys</u>**

Mae'n arfer da creu amgylchedd gwaith agored, tryloyw a diogel lle mae swyddogion a staff yn teimlo y gallant adrodd am bryderon. Er nad yw'r gyfraith yn mynnu bod gan heddluoedd bolisi chwythu'r chwiban ar waith, mae bodolaeth polisi chwythu'r chwiban yn dangos yn glir ymrwymiad Dyfed-Powys i wrando ar bryderon ei swyddogion a'i staff. Drwy gael polisïau a gweithdrefnau clir ar gyfer delio â chwythu'r chwiban, gall yr heddlu ddangos ei fod yn croesawu bod gwybodaeth yn cael ei dwyn i sylw'r rheolwyr. Mae hyn hefyd yn cael ei ddangos gan y canlynol:

**a) Diwylliant sefydliadol**

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cefnogi diwylliant agored a chefnogol, lle dylai swyddogion, staff a gwirfoddolwyr fod yn hyderus wrth wneud datgeliad heb ofni'r canlyniadau.
Y ddau brif rwystr y mae chwythwyr chwiban yn eu hwynebu yw ofn dial o ganlyniad i wneud datgeliad ac na fydd unrhyw gamau'n cael eu cymryd os byddant yn gwneud y penderfyniad i 'chwythu'r chwiban'. Felly, sicrhau bod swyddogion heddlu, staff a gwirfoddolwyr yn gallu mynd at reolwyr gyda'u pryderon yw'r cam pwysicaf wrth greu diwylliant agored.

Mae'r heddlu wedi ymrwymo i ddangos, trwy arweiniad gweladwy ar bob lefel o'r sefydliad, ei fod yn croesawu ac yn annog swyddogion, staff a gwirfoddolwyr i wneud datgeliadau.

Yr ethos sy'n sail i'r polisi hwn yw pan fo swyddog, aelod o staff neu wirfoddolwr yn adrodd am bryder, bydd yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi drwy gydol y broses.

**b) Hyfforddiant a chefnogaeth**

Bydd yr heddlu yn gweithredu hyfforddiant, mentora, cyngor a systemau cefnogi eraill i sicrhau bod swyddogion, staff a gwirfoddolwyr yn gallu mynd at amrywiaeth o bobl yn y sefydliad yn hawdd a bod yn hyderus y cânt eu cefnogi.

**c) Gweithio i wella**

Mae'r heddlu wedi ymrwymo i 'weithio i wella' cyn gynted â phosibl lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol. Yn y mwyafrif o achosion bydd y ffocws ar ddatrys unrhyw gamwedd mewn modd amserol a chymesur a fydd o fudd i'r partïon i gyd.

Mae'r egwyddorion canlynol yn y *Cod Moeseg yn berthnasol i'r polisi hwn -*

- Dewrder
- Parch ac empathi
- Gwasanaeth cyhoeddus

# 5. Gweithredu ac adolygu

Bydd y polisi'n cael ei adolygu bob 24 mis neu'n gynt os bydd newid mewn deddfwriaeth berthnasol neu ganllawiau cenedlaethol. Bydd y polisi hwn yn cael ei oruchwylio gan y Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg.

Mae'r Adran Safonau Proffesiynol, mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaethau Cyfreithiol, yn asesu effeithiolrwydd y polisi yn barhaus drwy, er enghraifft, edrych ar achosion lle caiff ei ddefnyddio.

I gael rhagor o wybodaeth am y polisi cysylltwch â naill ai'r Adran Safonau Proffesiynol neu'r Gwasanaethau Cyfreithiol.

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn amlinellu'r **nodweddion gwarchodedig** sy'n gymwys ar gyfer amddiffyniad o dan y ddeddf fel a ganlyn: Oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol.

Mae **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** yn gosod gofyniad cyfreithiol rhagweithiol ar gyrff cyhoeddus i ystyried, wrth gyflawni eu swyddogaethau, yr angen i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon o dan y ddeddf;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu;
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn berthnasol i bob nodwedd warchodedig ac eithrio priodas a phartneriaeth sifil, lle mai dim ond y ddyletswydd i roi sylw i'r angen i ddileu gwahaniaethu sy'n berthnasol iddi.


Mae cynnal **asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb** yn cynnwys asesu'n systematig effeithiau tebygol neu wirioneddol polisïau ar bobl mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchodedig a nodir uchod. Dylid cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar unrhyw bolisi sydd yn **berthnasol** i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae templed asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gael yma.

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB WEDI'I GWBLHAU

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Uwch-reolwr |
| **Adran:** | Adran Safonau Proffesiynol |
| **Llofnodwyd:** | G. Lemon |
| **Dyddiad:** | 6 Tachwedd 2024 |

## TYSTYSGRIF CYDYMFFURFEDD Â'R DDEDDF HAWLIAU DYNOL

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol ac wedi'i adolygu ar sail ei chynnwys a'r dystiolaeth ategol, a thybir ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddf honno a'r egwyddorion sy'n sail iddi.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Adran:** | Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Llofnodwyd:** |  |
| **Dyddiad:** | 7 Tachwedd 2024 |

## TYSTYSGRIF CYDYMFFURFEDD Â'R COD MOESEG

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Cod Moeseg ac wedi'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol, a thybir ei fod yn cydymffurfio â'r cod hwnnw a'r egwyddorion sy'n sail iddo –

- Dewrder
- Parch ac empathi
- Gwasanaeth cyhoeddus

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Uwch-reolwr |
| **Adran:** | Adran Safonau Proffesiynol |
| **Llofnodwyd:** | G. Lemon |
| **Dyddiad:** | 6 Tachwedd 2024 |

**ADOLYGIAD CYLLID CORFFORAETHOL**

Ni fydd unrhyw newidiadau i'r polisi hwn yn golygu unrhyw gost ariannol, ac eithrio'r gost o ddiwygio, gwella neu ffurfioli arferion busnes fel arfer sy'n fforddiadwy ac o fewn y gyllideb. Rhaid trafod unrhyw newidiadau i'r polisi sy'n effeithio ar gost ariannol â'r Adran Cyllid Corfforaethol cyn ceisio cymeradwyaeth i'r polisi hwn. Llofnodwch i gadarnhau yr ystyriwyd effaith ariannol y maes polisi hwn a bod yr Adran Cyllid Corfforaethol wedi cael gwybod am unrhyw newid, os ydyw'n berthnasol.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Uwch-reolwr |
| **Adran:** | Adran Safonau Proffesiynol |
| **Llofnodwyd:** | G. Lemon |
| **Dyddiad:** | 6 Tachwedd 2024 |

**Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**

Mae adran 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gosod gofyniad ar yr heddlu i gyhoeddi pob polisi ar wefan yr heddlu. Polisïau yw pam rydym yn gwneud pethau a gweithdrefnau yw sut rydym yn eu gwneud. Rhaid cynnal adolygiad fesul achos o weithdrefnau i ddiogelu'r broses o orfodi'r gyfraith ac ystyriaethau iechyd a diogelwch. Lle mae dogfen bolisi a gweithdrefn gyfun yn cael ei llunio, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r heddlu gyhoeddi'r adran bolisi ac asesu'r rhan o'r weithdrefn i sicrhau nad oes unrhyw wybodaeth sensitif yn cael ei chyhoeddi. Yn gyffredinol, y sefyllfa ddiofyn fydd, y bydd polisi a dogfen weithdrefn ategol yn cael eu cynhyrchu ar wahân.

Mae gofyniad felly i adolygu'r ddogfen hon i sefydlu ei haddasrwydd i'w chyhoeddi. Nodwch isod a ydyw'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd ai peidio. Lle credir y bydd datgelu'n niweidiol, gofynnir i chi fynegi'r niwed y byddai cyhoeddi yn ei achosi ac amlygu'r adrannau perthnasol yn y ddogfen. Lle canfyddir bod niwed wrth ddatgelu, dylid anfon y ddogfen at yr Uned Ddatgelu i'w hadolygu.

**Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi**

| **Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi** | **Ydy/Nac ydy** | **Dyddiad** | **Llofnod** |
|---|---|---|---|
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | Ydy | 6 Tachwedd 2024 | G. Lemon |
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol. Rwyf wedi nodi'r adrannau hynny nad ydynt yn addas i'w datgelu yn fy marn i, ac rwyf wedi nodi isod y niwed a fyddai'n cael ei achosi o'u cyhoeddi. | | | |

**Amlinelliad o unrhyw niwed a nodwyd o'u cyhoeddi:**

**Adolygiad Rhyddid Gwybodaeth – i'w gwblhau gan yr Uned Ddatgelu**

(Dim ond yn angenrheidiol os ydyw'r awdur o'r farn bod unrhyw niwed yn y datgeliad)

| **Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi** | **Ydy/Nac ydy** | **Dyddiad** | **Penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth** |
|---|---|---|---|
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | | | |
| Mae'r ddogfen yn addas i'w datgelu'n rhannol ac mae golygiadau perthnasol wedi'u gwneud. Mae fersiwn wedi'i chreu ar gyfer y cyhoedd. | | | |

Unwaith y bydd adolygiad wedi'i gynnal, dylai'r Swyddog Datgelu Rhyddid Gwybodaeth ddychwelyd y ddogfen at awdur y polisi, ac wedi iddi gael ei

chymeradwyo, dylid cyhoeddi'r ddogfen o dan Gynllun Cyhoeddi'r Heddlu. Dylid dwyn unrhyw newidiadau a wneir i'r ddogfen yn y dyfodol at sylw'r Swyddog Polisi a'r Uned Ddatgelu, fel y bo'n briodol.

**Rheoli Fersiwn Lawn**

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rhesymeg |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Hydref 2017 | Uwch-reolwr, Adran Safonau Proffesiynol | Fersiwn gyntaf |
| 1.1 | Tachwedd 2021 | Uwch-reolwr, Adran Safonau Proffesiynol | Adolygu a defnyddio templed polisi newydd |
| 2.0 | Ionawr 2023 | Uwch-reolwr, Adran Safonau Proffesiynol | Adolygiad |
| 3.0 | Medi 2024 | Uwch-reolwr, Adran Safonau Proffesiynol | Adolygu – defnyddio templedi polisi a gweithdrefnau newydd yr heddlu, mân newid – ychwanegu gwirfoddolwyr at adran 2 |